


Croeso i'ch cartref newydd



www.ccgwynedd.org 0300 123 8084

Cyhoeddwyd 2018

Yn y llawlyfr hwn

Croeso i'ch cartref	3
Eich tenantiaeth	4
Eich rhent a chostau eraill	5
Costau eraill yn eich cartref	7
Trwsio, cynnal a chadw	8
Cefnogi chi yn eich cartref	10
Gwella eich gwasanaeth	12
Eich trin chi'n deg	13
Gwybodaeth ychwanegol	14

Os hoffech chi y llawlyfr mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni ar.



Croeso i'ch cartref

Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich cartref newydd ac y byddwch yn falch o fod yn denant i ni. Dyma lyfryn byr sy'n rhannu help a chyngor gyda chi am nifer o'n gwasanaethau, cadwch hwn yn saff gyda eich contract. I gael mwy o fanylion am ein gwasanaethau ewch i'n gwefan:

www.ccgwynedd.org

Eich contract sy'n egluro eich hawliau a chyfrifoldebau.

Rhestr wirio pan yn symud i fewn:



- sefydlu Debyd Uniongyrchol i dalu eich rhent
- cofrestru i dalu eich treth cyngor
- sefydlu cyfrif e-bost
- trefnu yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref
- gwneud nodyn o ddarllenid eich mesurydd trydan / dŵr y diwrnod rydych yn symud i fewn
- cysylltu gyda cwmnïau ynni (nwy a trydan) i wneud yn siŵr bod chi ar y tariff gorau
- torri set arall o oriadau
- trefnu gyda'r Post Brenhinol bod eich post o'ch cyfeiriad blaenorol yn cael eu pasio ymlaen i chi
- gadael i'ch banc, cwmni ffon symudol a cwmnïau ynni wybod eich bod wedi newid cyfeiriad
- trefnu i dalu eich trwydded deledu
- ewch i www.gwynedd.llyw.cymru a rhoi eich cod post yn y blwch 'Lle dwi'n byw' i ddod o hyd i'ch diwrnod casglu gwastraff ac ailgylchu, eich band treth cyngor a nifer o wasanaethau eraill.

Yma i helpu

Cysylltu â ni Ffonio ni

Cysylltwch â ni dros y ffôn ar **0300 123 8084**. Mae ein canolfan gyswilt ar agor rhwng 8am – 6pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Os yw'n fater brys, ffoniwch ein gwasanaeth allan o oriau 24 awr ar **0300 123 8084**.

Gwefan

Ewch i'n gwefan www.ccgwynedd.org am yr wybodaeth fwyaf diweddar am ein gwasanaethau.

E-bostio ni

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, e-bostiwch ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Drwy apwyntiad

Gall ein swyddogion eich cyfarfod chi yn eich cartref neu o un o'n swyddfeydd. Er mwyn gwneud apwyntiad mewn lleoliad cyfleus cysylltwch â ni.

Siaradwch gyda ni ar Facebook

Gofynnwch gwestiwn ar ein tudalen Facebook. Mae'r dudalen hon yn cael ei fonitro rhwng 9am – 5pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Gallwch gysylltu â ni yn y Gymraeg neu'r Saesneg.



Eich cytundeb (tenantiaeth)

Mae eich cytundeb tenantiaeth yn contract cyfreithiol. Mae'n nodi pa fath o denantiaeth sydd gennych ac yn nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel tenant. Am fanylion llawn am eich hawliau, oblygiadau a chyfrifoldebau cyfeiriwch at eich cytundeb tenantiaeth.

Dylech gadw eich cytundeb mewn lle diogel a gwneud yn siŵr eich bod yn ei ddeall. Gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich tenantiaeth.

Byw yn eich cartref

Ar ôl i chi arwyddo eich cytundeb tenantiaeth a derbyn y goriadau rydym yn disgwyl i chi symud i mewn. I sicrhau eich bod wedi setlo byddwn yn trefnu ymweliad croeso o fewn y mis cyntaf, ac yna eto, ymhen 3, 6 a 9 mis. Os ydych yn mynd i ffwrdd o'r cartref am bedair wythnos neu fwy, mae angen i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig.



Bod yn gymdogol

Mae gan bawb hawl i fwynhau eu cartref mewn heddwch. Rydych yn gyfrifol am ymddygiad pob aelod o'r aelwyd, gan gynnwys ymwelwyr a phobl sy'n cael eu gwahodd.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys sŵn eithafol, harasio a bygwth, cam-drin yn y cartref, cam-drin corfforol neu ymosodiad, a defnyddio'r eiddo at ddibenion anghyfreithlon neu anfoesol. Rydym yn cymryd ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif a byddwn bob amser yn ymchwilio i unrhyw adroddiadau.

I'n hysbysu am ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltwch â ni. Byddwn wedyn yn cytuno ar ba fath o gamau i'w cymryd a byddwch yn cael gwybod am gynnydd.

Os ydych yn dyst i drosedd neu yn ddiodefwr trosedd dylech bob amser hysbysu'r heddlu yn y lle cyntaf.

Os ydych yn cadw anifeiliaid anwes, dylech sicrhau nad ydynt yn dod yn niwsans i'ch cymydog neu'r gymuned neu yn achosi difrod i'ch cartref. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.ccgwynedd.org



Eich rhent

Rhaid talu eich rhent, a thaliadau eraill fel taliadau gwasanaeth o flaen llaw. Mae rhent fel arfer yn cael ei gynyddu ym mis Ebrill a byddwch yn derbyn rybudd dau fis cynt o newidiadau yn eich rhent a chostau eraill.

Dulliau Talu

Mae nifer o ddulliau talu gan gynnwys:

- Debyd uniongyrchol
- Gorchymyn banc
- Ar lein www.allpay.net
- Ar y ffôn gan ddefnyddio cerdyn debyd - ffoniwch ni ar **0300 123 8084**.
- Mewn unrhyw Swyddfa Bost neu Pay Point gan ddefnyddio eich cerdyn rhent
- Ffoniwch ein Tîm Rhent ar **0300 123 8084** i drefnu taliad cylchol
- Neges destun - bydd angen i chi gofrestru ar-lein ar allpayments.net/textpay/login.aspx



Taliadau Gwasanaeth

Bydd rhai tenantiaid yn talu tâl ar wahân am yr hyn sy'n cael ei adnabod fel tâl gwasanaeth yn ogystal â thaliadau rhent. Mae hyn yn cynnwys costau darparu gwasanaethau ychwanegol fel:

- system gwresogi gymunedol mewn tai gwarchod
- cynnal a chadw tiroedd
- System Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- swyddog tai cefnogol a system larwm argyfwng 24 awr
- glanhau ardaloedd cymunedol

Y Gyfnewidfa Rhent - Gwella eich sgôr credyd

Rydym o'r farn y dylech gael eich gwobrwyo am dalu eich rhent ar amser. Dyna pam rydym wedi ymuno gyda'r Gyfnewidfa Rhent - ffordd o wella eich sgôr credyd heb orfod cymryd cytundebau credyd newydd.

Wrth rannu eich hanes talu rhent gydag Experian bydd hynny'n helpu i greu prawf adnabod ar-lein ac yn eich gwneud yn gwsmer mwy dibynadwy o bosib i gwmnïau ac yn haws i chi:

- agor cyfrif banc newydd
- cael cerdyn credyd newydd
- sicrhau benthyciad
- siopa ar-lein
- cael cyfraddau nwy a thrydan gwell
- cael cyfraddau ffôn symudol gwell.

Budd-daliadau Tai / Credyd Cynhwysol

Os ydych yn ystyried gwneud cais am Fudd-dal Tai, dylech ymgeisio cyn gynted yr ydych yn arwyddo eich cytundeb tenantiaeth. Gallwch wneud hyn ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd:

www.gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi adael i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wybod am eich costau rhent. Gallwn ddarparu'r dystiolaeth ac os bydd angen gallwn gysylltu â nhw ar eich rhan.



Cael trafferth talu eich rhent?

Gadewch i ni wybod cyn gynted os ydych yn cael trafferth talu eich rhent. Rydym yma i'ch helpu. Gallwch siarad ar y ffôn, gallwn ymweld â chi gartref neu drefnu cyfarfod gyda chi yn unrhyw un o'n swyddfeydd. Gall ôl-ddyledion rhent a thâl gwasanaeth arwain at eich troi i ffwrdd o'ch cartref a dyfarniad llys i ad-dalu'r ôl-ddyledion.

Gallwn:

- eich helpu i reoli eich dyledion
- gwneud yn siŵr eich bod yn derbyn y budd-daliadau yr ydych yn gymwys i'w derbyn
- cytuno ar gynllun i glirio eich ôl-ddyledion o fewn amserlen resymol
- egluro beth a all digwydd os caiff camau cyfreithiol eu cymryd, beth sydd angen i chi ei wneud a lle mae modd i chi gael help.

Gallwch hefyd gael cyngor annibynnol drwy gysylltu gyda:

- Shelter Cymru: **0845 075 5005**
- Cyngor ar Bopeth: **08444 772020 / 08454 503064**



Costau eraill yr aelwyd

Treth Cyngor

Dylid cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ar **01286 682701** i adael iddynt wybod eich bod wedi symud i mewn i'ch cartref newydd a threfnu i dalu eich treth cyngor. Gallwch hefyd gwblhau'r ffurflen ar wefan y cyngor:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/changeofcircumstances>

Yswiriant Cynnwys

Mae nifer o denantiaid yn tybio ein bod ni fel landlord yn yswirio eich dodrefn, eiddo personol ac addurniadau yn awtomatig. **Nid dyma'r achos.** Dim ond rhai tenantiaid sy'n sylweddoli hyn a hynny ar ôl i'r difrod gael ei wneud.

Mae'n bwysig eich bod yn trefnu eich yswiriant cynnwys y cartref eich hun, naill ai trwy wneud eich trefniadau eich hun neu brynu yswiriant cynnwys y cartref o dan ein cynllun yswiriant cynnwys y cartref sy'n cael ei drefnu gan gwmni wedi'i gymeradwyo.

Gallwch dalu'r yswiriant wrth dalu am eich rhent pob wythnos.

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth www.ccgwynedd.org neu ffoniwch ni i gwblhau cais am ein yswiriant cynnwys y cartref.



Cyllidebu

Efallai y bydd angen help arnoch i reoli eich cyllideb yn ofalus i sicrhau bod gennych ddigon o arian i dalu'r rhent.

Cyllideb yw dwy restr syml:

- Arian sy'n dod i mewn fel cyflogau, budd-daliadau neu incwm arall
- Taliadau yr ydych yn eu gwneud fel biliau, costau byw ac ad-daliadau benthyciadau.

Mae sawl cynllunydd cyllideb am ddim ar gael ar-lein i'ch helpu i lunio cyllideb.

Mwyafrif o'r amser byddwn wedi gwneud Aseiad Fforddiadwyedd drwy ein system 'Entitled To' cyn cynnig eich tenantiaeth i chi. Os bydd eich amgylchiadau yn newid a rydych yn cael trafferthion cyllidebu mae gwybodaeth o ran cyllidebu a chyfrifiannell budd-daliadau ar gael drwy ein gwefan.



Trwsio, cynnal a chadw

Gwneud cais am waith trwsio

Fel eich landlord, rydym yn gyfrifol am gynnal a chadw eich cartref. Rydym hefyd yn gyfrifol am ardaloedd cymunedol fel coridorau a lifftiau. Mae'r gwaith yma yn cael ei dalu amdano drwy eich rhent a thâl gwasanaeth. I wneud cais am waith trwsio ffoniwch ni ar **0300 123 8084**.

I gael mwy o fanylion am y gwasanaeth ag ein amserlenni trwsio ewch i'n gwefan www.ccgwynedd.org

Eich cyfrifoldeb chi

Mae rhai elfennau o waith cynnal a chadw yn gyfrifoldeb arnoch chi. Er enghraifft:

- pethau rydych wedi gosod eich hunain
- newid gwydrau, cloeon neu goriadau newydd
- trwsio unrhyw ddifrod sydd wedi cael ei achosi yn cael mynediad gorfolodol
- newid bylbiau, ffiwsys neu osod socedi trydan ychwanegol.

Os chi sy'n gyfrifol am wneud y gwaith trwsio gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu i'r gwaith gael ei wneud gan berson cymwys addas.

Gwaith ad-daladwy

Chi sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod sy'n cael ei achosi i'ch cartref, gardd neu ardal cymunedol. Os nad ydych chi'n gallu cadw'r ardaloedd hyn yn lân a thaclus neu yn achosi difrod gallwn godi tâl arnoch chi am y gwaith sydd ei angen.



Mynediad i'ch cartref

Byddwn yn cysylltu gyda chi o flaen llaw cyn galw i'ch gweld. Mae ein staff, ein contractwyr a gweithwyr asiant yn dilyn yn cod ymddygiad ac yn gwisgo cardiau adnabod. Mi ddylent ddangos y cerdyn i chi, os ddim gofynnwch i'w weld. Os nad ydych yn sicr ac eisiau gwirio pwy ydynt, ffoniwch ni.

Edrych ar ôl eich cartref, gardd ac ardaloedd cymunedol

Fel tenant, mae'n rhaid i chi gadw eich cartref mewn cyflwr da ac edrych ar ôl yr ardd (os oes gennych un). Os ydych yn byw mewn fflat, peidiwch a gadael eitemau yn yr ardaloedd cymunedol gan bod hyn yn berygl tân neu yn rwystr gallai achosi eraill i faglu.


Addasiadau a Gwelliannau

Mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn ysgrifenedig i wneud cais am addasiad neu welliannau i'ch cartref. I wneud cais ffoniwch ni neu anfonwch e-bost at ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Diogelwch nwy

Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i gynnal gwiriadau nwy yn flynyddol ar eich eiddo. Mae'n rhaid i chi adael i ni gael mynediad i'ch eiddo, os na fyddwch yn caniatáu mynediad o fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr apwyntiad cyntaf bydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn eich erbyn.

Os yw eich cyflenwad nwy yn un allanol, ac os byddwn yn cael trafferth cael mynediad bydd eich cyflenwad nwy yn cael ei droi i ffwrdd.



Arogli nwy

Os ydych yn arogli nwy cymerwch y camau canlynol:

- agorwch y drysau a'r ffenestri
- trowch y cyflenwadau nwy i ffwrdd yn y falf rheoli (os ydych yn gwybod lleoliad y mesurydd) a pheidiwch a throï unrhyw offer trydanol ymlaen na cynnau fflam
- ffoniwch rif ffôn argyfwng y Grid Cenedlaethol Nwy ar **0800 111 999**.



Eich Cefnogi yn eich cartref

Rydym yn cynnig gwasanaeth cefnogi i helpu pobl i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid

Gall ein Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid eich helpu i gynnal eich tenantiaeth trwy ddatblygu sgiliau bywyd fel y gallwch fyw yn annibynnol yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth cefnogi hwn yn cynnig:

- Cyngor ar gyllidebu a thrin arian
- Darparu cefnogaeth i gynnal a chadw'r cartref
- Dulliau i gynyddu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen fel bo modd i bobl fel ein tenantiaid fyw yn eu cartrefi a chynnal eu tenantiaeth
- Dulliau i gynyddu a datblygu sgiliau bywyd
- Cefnogaeth i ddeall eich hawliau a chyfrifoldebau
- Cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant
- Cefnogaeth i gwblhau ffurflenni a cheisiadau, a sut i hawlio budd-daliadau
- Canfod sefydliadau eraill sy'n gallu eich helpu mewn amgylchiadau penodol.



Rydym yn sylweddoli pa mor ddifrifol yw camdriniaeth yn y cartref a'r effaith dinistriol mae'n ei gael ar ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Os ydych yn dioddef o gamdriniaeth yn y cartref neu yn poeni am denant arall, ffrind neu aelod o'r teulu cysylltwch â ni i gael cyngor a chefnogaeth.

Gwasanaeth Cefnogi Tai Gwarchod

Tai rhent yw Tai Gwarchod sydd wedi eu cynllunio yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, anabl a / neu fregus ac mae'n ddelfrydol ar gyfer pobl sy'n mwynhau byw yn annibynnol.

Mae ein cynlluniau tai gwarchod yn cynnwys fflatiau hunangynhaliol heb ddodrefn, byngalos a fflatiau stiwdio. Mae Swyddog Tai Gwarchod ym mhob cynllun a gwasanaeth larwm argyfwng 24 awr.

Mae rhestr o'n safleoedd tai gwarchod a sut i wneud cais am un ar gael ar ein gwefan.



Gwasanaeth Tai Cefnogol yn y gymuned

Gall y gwasanaeth hwn eich helpu i gadw eich annibyniaeth cyhyd ag y mae'n bosibl, gwella ansawdd bywyd a gwella eich iechyd a lles. Efallai y bydd pobl dros 55 oed gydag anableddau yn gymwys i gael y gefnogaeth hon. Gallai tâl gwasanaeth fod yn berthnasol.

Gallwn gynnig:

- Ymweliadau cefnogaeth i'ch cartref (o leiaf 45 munud yr wythnos) o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Ymweliadau yw'r rhain ar gyfer pobl sy'n unig ac eisiau cwmni a chefnogaeth a gwiriadau lles rheolaidd) gan ddarparu diogelwch a sicrwydd. Gall y Swyddog Tai Cefnogol roi cyngor a help ar nifer o bethau sy'n ymwneud â'r cartref.
- Cymorth ar gael i reoli arian a thalu biliau
- Cynllun Cefnogi Personol yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu hasesu
- Gosod sêff gorïad yn eich eiddo - i gael mynediad mewn argyfwng
- Gosod system larwm argyfwng lle mae angen gosod llinell ffôn
- Gwahoddiadau i wahanol weithgareddau yn eich Cynllun Tai Cefnogol agosaf neu sefydliadau cymunedol yn eich ardal fel boreau coffi, clwb cinio, bingo, clwb celf, ymarfer corff o'r gadair ayb

Addasiadau

Os ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref gydag anabledd tymor hir neu bryder iechyd sy'n golygu eich bod yn cael problemau gyda mynd allan, anhawster o ran symud o gwmpas neu gyflawni tasgau dydd i ddydd yn ddiogel yn eich cartref, yna, efallai gallwn helpu.

Gallwn eich cyngori ar sut i gael addasiadau bach i'r cartref - ffoniwch ni ar **0300 123 8084**.

Byddai angen cynnal asesiad cyn gwneud yr addasiadau mawr a hynny hefyd ar argymhelliad Therapydd Galwedigaethol.

Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.



Gwella eich gwasanaeth



Dweud eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Rydym eisiau i chi gymryd rhan i'n helpu ni wella ein gwasanaethau.

Gallwch gymryd rhan cyn lleied neu gymaint ag y dymunwch trwy:

- ddilyn ni ar Facebook - chwiliwch am Cartrefi Cymunedol Gwynedd a hoffwch ein tudalen
- ddilyn ni ar Twitter @ccgwynedd
- ymuno gyda'n panel cwsmeriaid a chwblhau arolygon ar wahanol agweddau o'n gwasanaethau o dro i dro
- ymuno gyda'n partneriaeth tenantiaid a phreswylwyr - rhwydwaith sy'n cyfarfod pob dau fis ac yn gweithio gyda ni ar sut y gallwn wella y ffodd yr ydym yn gweithio gyda chi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'r dudalen Cymryd Rhan ar ein gwefan.



Cwynion, canmoliaeth ac adborth

Rydym yn gobeithio bod ein cwsmeriaid yn fodlon gyda'n gwasanaethau. Mae bob amser yn braf derbyn canmoliaeth am ein gwasanaethau, a chlywed am yr effaith gadarnhaol ar eich bywydau a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gadael i ni wybod os ydych yn hapus gyda'n gwasanaethau fel bod y gwaith da hwn yn cael ei gydnabod.

Mewn achosion lle nad ydych yn fodlon gydag unrhyw agwedd o'n gwasanaeth mae gennym ganllawiau sy'n egluro sut yr ydym yn datrys cwynion.

Rydym yn delio gyda chwynion mewn modd cadarnhaol, gan groesawu cwynion fel cyfleoedd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi ymrwmo i roi'r gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid bob amser.

Byddwn yn:

- sicrhau archwiliad llawn a theg
- effeithiol ac effeithlon wrth ddelio gyda chwynion
- yn dysgu o adborth a defnyddio'r adborth i wella ein gwasanaethau.

Mae canllawiau cwyno ar gael ar ein gwefan.

Eich trin yn deg

Rydym wedi ymrwmo i gydraddoldeb ac i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, yn briodol ac yn deg.

Mae gan bob maes gwasanaeth gyfres o safonau a rhaid i ni weithio tuag atynt. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan ar y safonau hyn.

Eich Gwybodaeth

Rydym yn gaddo defnyddio eich gwybodaeth yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi'r hawl i chi ofyn, ac yn y rhan fwyaf o achosion, i chi gael copi o'r wybodaeth yr ydym yn ei gadw amdanoch.

Os hoffech gopi cysylltwch gyda'n Swyddog Diogelu Data ar ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu ysgrifennwch atom: Cartrefi Cymunedol Gwynedd, PO Box 206, Bangor, Gwynedd, LL57 9DS.

Gallwch weld ein polisi diogelu data a pholisi preifatrwydd ar ein gwefan.



Gwybodaeth ychwanegol

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni drwy:

- ffonio **0300 123 8084**
- e-bostio **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**
- ysgrifennu at CCG, PO BOX 206, Bangor, Gwynedd, LL57 9DS
- ymweld â un o'n swyddfeydd ardal yn Bangor, Caernarfon, Porthmadog neu Dolgellau
- wneud apwyntiad i gwrdd â un o'n swyddogion yn eich cartref neu yn un o'n swyddfeydd lleol
- adael neges ar ein tudalen Facebook.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ein holl wasanaethau ar gael ar ein gwefan:

www.ccgwynedd.org

Gadewch i ni wybod

Rhowch wybod i ni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau, er enghraifft newid rhifau ffôn, babi newydd, rywun yn symud i fewn neu allan o'ch cartref neu brofedigaeth o fewn y cartref. Cysylltwch â ni i ddiweddarau eich manylion.

Dod a'ch tenantiaeth i ben

Gobeithio bod chi wedi mwynhau byw yn eich cartref. Os ydych yn gwneud y penderfyniad i adael mae rhaid i chi roi o leiaf 4 wythnos lawn o rybydd ysgrifenedig i ddod a'ch tenantiaeth i ben.

Mae mwy o fanylion am y broses a rhestr wirio o beth rydych angen ei wneud cyn symud allan ar gael ar ein gwefan.

Cysylltwch â ni i ddiweddarau eich manylion.

Rydym yn gobeithio yn fawr y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

